# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR SAFONAU**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD LLUN, 11EG GORFFENNAF, 2022**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol - Zoom**

***(i gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni)***

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Gwener, 1 Gorffennaf 2022)

# PWYLLGOR SAFONAU

## AELODAETH

## Aelodau Etholedig (3)

Y Cynghorwyr

Anne Lloyd-Jones
Beth Lawton
Dewi Owen

## Aelodau Annibynnol (hefo pleidlais) (5)

Aled Jones
David Wareing
Einir Young
Hywel Eifion Jones
[sedd wag]

## Aelod Pwyllgor Cymuned (hefo pleidlais) (1)

Richard Parry Hughes

# R H A G L E N

## 1. ETHOL CADEIRYDD

*Ethol Cadeirydd ar gyfer y pwyllgor hwn.

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

*Ethol Is-gadeirydd ar gyfer y pwyllgor hwn.

**D.S – mae'r rheoliadau perthnasol yn nodi:-*

*"Dim ond aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau a all fod yn gadeirydd neu is-gadeirydd."*

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 6. COFNODION 4 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 14 Chwefror, 2022 fel rhai cywir.

## 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2021/22 10 - 27

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau.

## 8. HUNAN ASESIAD A RHAGLEN WAITH 28 - 36

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro.

## 9. HONIADAU YN ERBYN AELODAU 37 - 39

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau.

# PWYLLGOR SAFONAU DYDD LLUN, 14 CHWEFROR 2022

**Yn bresennol**:-

**Aelodau Etholedig:-** Y Cynghorwyr Anne Lloyd Jones a Beth Lawton.

**Aelodau Annibynnol:** Mr Aled Jones, Mr Hywel Eifion Jones, Miss Margaret E.Jones, Mr Dave Wareing a'r Dr Einir Young (Cadeirydd)

**Aelod Pwyllgor Cymunedol:** Mr Richard Parry Hughes

**Hefyd yn Bresennol:** Iwan Evans (Swyddog Monitro), Sion Huws (Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd Dewi Roberts.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd y Cynghorydd Anne Lloyd Jones fuddiant personol yn eitem 6 – Adroddiad ar Ganlyniad Ymchwiliad i Gŵyn yn erbyn y Cynghorydd Michael Stevens o Gyngor Tref Tywyn, oherwydd ei bod yn aelod o Gyngor Tref Tywyn. Nid oedd o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu, ac ni adawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

Datganodd Mr Hywel Eifion Jones fuddiant personol yn eitem 8 – Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru 2019-20 a 2020-21, oherwydd ei fod yn aelod lleyg ar Banel Dyfarnu Cymru. Nid oedd o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu, ac ni adawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

**3. MATERION BRYS**

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfodydd o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 26 Hydref, 8 Tachwedd ac 8 Rhagfyr, 2021 fel rhai cywir, yn amodol ar nodi nad oedd y Cynghorydd Anne Lloyd Jones wedi cyflwyno ymddiheuriad i gyfarfod 26 Tachwedd, ond yn hytrach wedi methu bod yn rhan o'r cyfarfod.

**5. GRŴP TASG A GORFFEN – Y FFRAMWAITH SAFONAU FOESEGOL**

Cyflwynwyd – adroddiad y Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau yn manylu ar ganfyddiadau ac argymhellion y Grŵp Tasg a sefydlwyd gan y pwyllgor i drafod canfyddiadau'r Adolygiad o'r Fframwaith Safonau Moesegol i Gymru.

Nododd y Swyddog Monitro ei fod yn croesawu adroddiad y Grŵp Tasg, gan ychwanegu:-

- Y bu'r ymarferiad yn gyfle i gymryd cam yn ôl o waith y Pwyllgor Safonau a lle mae'n eistedd o fewn yr Awdurdod, a'i broffil.
- Bod adroddiad Richard Penn yn gyfle i weld yr hyn oedd yn digwydd mewn llefydd eraill, ac i ystyried a oedd yna syniadau neu gyfleoedd i ddatblygu'r pwyllgor.

- Ei bod nawr, ar drothwy Cyngor o'r newydd yn dilyn yr Etholiadau ym mis Mai, yn amser da i ddechrau adeiladu ar hyn drwy'r broses anwytho, ayb.
- Y gwelid o'r adroddiad bod yna lawer o bethau ymarferol y gellid eu hymgorffori mewn rhaglen waith, ac mewn ffordd o weithredu hefyd, megis y cysyniad yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 bod arweinyddion grwpiau gwleidyddol yn gyfrifol am ymddygiad eu haelodau. Roed gan y pwyllgor hwn rôl newydd i hyrwyddo, cefnogi a monitro'r gwaith yma, ac roedd hynny'n agor y drws i gael perthynas fwy byw ac agos gyda'r arweinyddion grwpiau. Byddai hefyd yn fodd o sicrhau gwell cyswllt gydag uwch reolaeth y Cyngor, y swyddogion statudol eraill, neu o leiaf godi ymwybyddiaeth o'r Pwyllgor Safonau.
- Bod awgrym bod cynghorau cymuned a thref yn brif ffynhonnell problemau Cod Ymddygiad, ac er bod yna elfen o wirionedd yn hynny, roedd y ffaith bod yna dros 60 o gynghorau cymuned a thref o amrywiol faint ar draws Gwynedd, gydag oddeutu 750 o gynghorwyr yn gwasanaethu ar y cynghorau hynny, yn golygu bod canran yr aelodau sy'n dod ar draws materion Cod Ymddygiad yn gymharol fychan. Gan hynny, roedd y gwaith cenhadu a gwneud y cyswllt a rhoi'r gefnogaeth am fod yn waith cyson, ond fel roedd yr adroddiad yn nodi, roedd rhaid cychwyn yn rhywle a chreu platfform i ddatblygu perthynas fwy byw.
- Fel y corff â'r cyfrifoldeb statudol tuag at ymddygiad aelodau yn y cynghorau cymuned, roedd yn bwysig nad oedd y Pwyllgor Safonau yn mynd ar goll yn y broses o gefnogi a hyrwyddo, a'i fod yn cael ei weld fel y corff statudol gyda'r rôl drosolwg a chynnal.

Mewn ymateb i gwestiynau, nododd y Swyddog Monitro:-

- Ei bod yn amlwg bod yna amrywiaeth ar draws Cymru o ran sut mae pwyllgorau safonau yn gweithredu. Roedd sôn am ymestyn y Fforwm Cadeiryddion ar draws Cymru gyfan, a byddai hynny'n rhoi cyfle i gychwyn cael cysondeb. Roedd y pwyllgor hwn wedi ymateb i Adroddiad Richard Penn drwy weld beth mae pobl eraill yn wneud, ac efallai y gellid dysgu o hynny er mwyn edrych ar y ffordd mae'r pwyllgor yn gweithio. Ychwanegwyd mai'r neges o Gynhadledd Safonau Cymru Gyfan a gynhaliwyd yn ddiweddar oedd bod lle i ni ddysgu oddi wrth ein gilydd.
- O ran y rhwystredigaeth na all aelodau bellach gymryd rhan mewn trafodaethau ar faterion lle mae ganddynt gyfraniad i'w wneud, bod modd cael goddefeb ar gyfer arbenigedd penodol. Fodd bynnag, ni chredid y byddai yna newid i'r arweiniad na'r ddeddfwriaeth o amgylch datgan buddiant. Fel roedd y Grŵp Tasg wedi amlygu, efallai y dylai'r hawl a'r seiliau ar gyfer goddefeb gael eu hamlygu yn gliriach, fel, os ydi'r sefyllfa'n codi, bod modd cyflwyno cais, er derbyn bod yr amserlen ar gyfer gwneud hynny yn heriol iawn.

Mewn ymateb, nododd aelodau:-

- Y credid bod lle i fod yn fwy hyblyg yma. Roedd ymgeisio am oddefiad yn drefn glogyrnaidd iawn, ac roedd pobl yn debygol o gymryd y risg gyda materion cymharol fychan yn y cynghorau cymuned, yn hytrach na mynd drwy'r broses.
- Nad yw aelodau'n glir oes ganddynt fuddiant sy'n rhagfarnu ai peidio, a bod y pwyllgorau craffu, yn enwedig, yn colli llawer o fewnbwn gan aelodau sydd â phrofiad o'r hyn sy'n cael ei graffu, ond wedi gorfod gadael y cyfarfod. Yn hyn o beth, credid y byddai'n well caniatáu iddynt gael dweud eu dweud, ond peidio pleidleisio ar y mater.

Nododd y Cadeirydd fod y drafodaeth ar Adroddiad Richard Penn yn y Gynhadledd Safonau yn un lefel uchel, ond ein bod ni, yng Ngwynedd, wedi gwneud camau breision i ddeall yr adroddiad o'n safbwynt ni ein hunain. Ychwanegodd, petai unrhyw bwyllgorau safonau eraill wedi cyflawni ymarferiad tebyg i'r Grŵp Tasg yng Ngwynedd, y byddai'n

ddiddorol dwyn yr holl waith at ei gilydd er mwyn gweld oes yna themâu tebyg y gellid eu trafod ymhellach.

Mewn ymateb, nododd y Swyddog Monitro fod Fforwm Cadeiryddion y Gogledd a'r Canolbarth wedi ennill ei blwyf, a'i bod yn amlwg o argymhellion Richard Penn bod hwn am gael ei wneud yn fforwm cenedlaethol fyddai'n gyfle i rannu ymarfer da, trafod problemau a materion mwy gweithredol i'r pwyllgorau a lledaenu cysondeb.

Diolchwyd i'r Grŵp Tasg am eu gwaith a mynegwyd cymeradwyaeth i'r argymhellion.

Awgrymwyd mai'r her fwyaf fyddai'r angen i gael trefn datrys leol mewn lle, a holwyd sut fyddai hynny'n gweithio yn ymarferol. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Monitro:-

- Bod yr egwyddor yn hollol briodol ac i'w gefnogi, gan ei bod yn llawer gwell tynnu'r gwres o sefyllfa drwy drafodaeth a chytundeb yn lleol, na mynd drwy broses gwynion ffurfiol a maith.
- Gydag unrhyw gyfundrefn o'r fath, roedd yna ddwy ochr, a'r cam cyntaf oedd sefydlu beth oedd y ddwy ochr. Roedd pob cŵyn sy'n cael ei datrys yn lleol yn cymryd amser ac adnoddau i sicrhau tegwch a chyfiawnder â'r ddwy ochr .
- Bod rhaid bod yn ofalus rhag codi disgwyliadau pobl ynglŷn â gallu'r drefn i gyflawni heb fod yr adnoddau ar ei gyfer mewn lle.
- Bod rhaid i'r ddwy ochr arddangos dymuniad a pharodrwydd i ddatrys yn lleol, ac nad oedd y drefn yn addas mewn rhai achosion oherwydd difrifoldeb yr ymddygiad neu'r her.
- Y dylai'r drefn ddigwydd yn sydyn ac effeithiol er mwyn datrys, ond roedd angen buddsoddiad adnoddau ac amser i wneud chwarae teg â phobl mewn cyd-destun fel hyn.

Mewn ymateb, nodwyd y cydnabyddid bod hyn yn heriol a bod angen ewyllys da i wneud i'r drefn weithio, a phwysleisiwyd bod aelodau'r pwyllgor ar gael, e.e. drwy is-bwyllgor, i gynorthwyo'r Swyddog Monitro gyda'r gwaith.

Mynegodd y Swyddog Monitro ei siomedigaeth nad oedd yn glir sut roedd argymhellion Richard Penn am weithio o ran adnoddau, ayb, yn enwedig pe byddai'r drefn yn cael ei hymestyn i gynghorau cymuned.

Ategodd y Cadeirydd y sylw hwn, gan ychwanegu bod y broblem yn ddyrus o ran amseru hefyd, gyda materion yn cymryd amser maith i fynd drwy'r drefn.

Diolchwyd i'r Swyddog Monitro a'i dîm am roi cefnogaeth dda i Gyngor Tref Tywyn bob amser. Nodwyd nad oedd y bobl hynny oedd fwyaf angen cefnogaeth yn mynychu'r sesiynau hyfforddiant, a bod yr aelodau weithiau'n amharod i drafod rownd bwrdd, ac yn methu gwneud hynny bellach gan fod popeth yn digwydd ar Facebook.

Pwysleisiwyd pwysigrwydd rhoi cefnogaeth briodol i glercod cynghorau cymuned a thref, a holwyd a ellid cynnal cyfarfod rhithiol gyda'r holl glercod fel dull o gynnig arweiniad a chefnogaeth. Ychwanegwyd ei bod yn anodd iawn dod o hyd i bobl i wneud y gwaith, ac na chytunid â'r gofyn i glercod feddu ar gymhwyster, yn enwedig yn y cynghorau lleiaf.

Croesawyd awgrym y Grŵp Tasg y dylid cael llyfryn bychan syml yn esbonio'r Cod Ymddygiad i'w gyflwyno i aelodau wrth iddynt dderbyn eu swyddi.

Rhannodd y Cadeirydd y sleidiau '*Safonau – golwg o Wynedd'* a gyflwynodd i Gynhadledd Safonau Cymru Gyfan yn ddiweddar.

Nodwyd bod y cyfeiriad yn y sleidiau at fframio gwaith pwyllgor safonau yng nghyd-destun Llesiant, ac yn enwedig y 5 ffordd gynaliadwy o weithio, yn bwynt pwysig iawn, gan fod safonau yn torri ar draws pob dim ac yn greiddiol i bopeth. Nodwyd hefyd bod ymddygiad, a chwynion am ymddygiad, yn cael effaith ar iechyd a lles y dioddefwyr a'r sawl y gwneir cŵyn yn eu herbyn.

Diolchodd y Swyddog Monitro i'r Grŵp Tasg a'r Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau am eu gwaith, gan nodi:-

- Y dymunai gyflwyno rhaglen waith i gyfarfod nesaf y pwyllgor yn seiliedig ar adroddiad y Grŵp Tasg, gyda chamau ymarferol ar gyfer rhoi'r materion hynny ar waith.
- Yn y cyfamser, y byddai'n trafod yr adroddiad gyda Grŵp Llywodraethu'r Cyngor, er enghraifft, ac yn amlygu rhai o'r pwyntiau sydd wedi codi o'r drafodaeth, fel bod modd bwydo hynny i mewn i'r gwaith corfforaethol sy'n ymwneud â chofrestru risg, ayb, a dod yn ôl i'r pwyllgor gydag adroddiad ar y cyd â'r Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau.
- Bod rhai o'r materion am ddod yn gamau gweithredu, ac eraill yn faterion fydd yn cael eu hymgorffori i mewn i drefniadau arferol o ran cyd-gysylltu ayb, gan hefyd gyd-blethu hyn oll gyda'r gwaith o baratoi'r protocol ar y berthynas rhwng y Pwyllgor Safonau ac Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol.

Mewn ymateb i awgrym, cytunwyd bod y Swyddog Monitro a'r Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau yn cyd-weithio gyda'r Grŵp Tasg ar lunio'r rhaglen waith cyn y pwyllgor nesaf, fel ffordd o sicrhau bod yr hyn sy'n cael ei gynhyrchu yn adlewyrchu'r weledigaeth sy'n deillio o'r gwaith.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â sut orau i weithredu ar awgrym y Grŵp Tasg bod y Cadeirydd a'r Aelod Pwyllgor Cymunedol yn gwneud darn o waith gyda chlercod cynghorau cymuned a thref i ddeall yn well beth yw eu hanghenion.

Eglurodd y Swyddog Monitro, oherwydd yr Etholiadau, na fyddai modd i'r Gwasanaeth ddarparu adnodd i wneud gwaith o sylwedd i gefnogi'r broses ar hyn o bryd.

Cytunwyd bod y Cadeirydd a'r Aelod Pwyllgor Cymunedol yn cynnal trafodaeth gychwynnol gyda sampl o glercod cynghorau cymuned a thref, er mwyn dechrau deall yr anghenion yn y sir.

Awgrymwyd bod angen sicrhau croesdoriad o glercod ar gyfer yr ymarferiad hwn, e.e. grŵp yn seiliedig ar ddalgylch ysgol uwchradd, clerc profiadol a chlerc llai profiadol, Partneriaeth Ogwen (sy'n cynnig cefnogaeth i glercod), a chynghorau ardal Penllyn (sy'n rhannu clerc). Awgrymodd y Swyddog Monitro y gellid defnyddio'r rhestr o gynghorau a baratowyd ar gyfer y peilot hyfforddiant fel man cychwyn, ac adeiladu ar hynny.

**PENDERFYNWYD**

(a) **Gofyn i'r Swyddog Monitro ddod yn ôl gydag adroddiad i'r Pwyllgor, mewn ymgynghoriad â'r Grŵp Tasg a Gorffen, ar gamau gweithredu mewn ymateb i Adroddiad Richard Penn.**

**(b) Bod y Cadeirydd a'r Aelod Pwyllgor Cymunedol yn cynnal trafodaeth gychwynnol gyda sampl o glercod cynghorau cymuned a thref, er mwyn dechrau deall yr anghenion yn y sir.**

**6. ADRODDIAD AR GANLYNIAD YMCHWILIAD I GŴYN YN ERBYN Y CYNGHORYDD MICHAEL STEVENS O GYNGOR TREF TYWYN**

Cyflwynwyd – adroddiad y Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau yn manylu ar ganlyniad ymchwiliad i gŵyn yn erbyn y Cynghorydd Michael Stevens o Gyngor Tref Tywyn, yn unol â darpariaethau Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 (fel y'u diwygiwyd).

Diolchwyd i'r swyddogion am eu gwaith trylwyr a'u cefnogaeth i'r aelodau yn ystod yr holl broses o drefnu a chynnal y gwrandawiad.

Nodwyd bod penderfyniad Llywydd Panel Dyfarnu Cymru i wrthod cais y Cynghorydd Michael Stevens am ganiatâd i apelio yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor Safonau yn adlewyrchu bod y pwyllgor wedi dod i benderfyniad rhesymol, ac wedi'i eirio'n ofalus a da, ar y mater.

Ategodd y Cadeirydd y sylw hwn, gan nodi ei bod hithau wedi ei phlesio'n arw gydag ymateb y Panel Dyfarnu, a diolchodd i bawb am y gefnogaeth.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r adroddiad ar ganlyniad yr ymchwiliad i'r gŵyn yn erbyn y Cynghorydd Michael Stevens o Gyngor Tref Tywyn, i'w anfon at y Swyddog Monitro, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, y Cynghorydd Stevens a'r achwynydd, yn unol â gofynion y Rheoliadau.**

## 7 HONIADAU YN ERBYN AELODAU

Cyflwynwyd - adroddiad y Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau yn cyflwyno gwybodaeth am benderfyniadau'r Ombwdsmon ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at ddyhead y Grŵp Tasg, a sefydlwyd i drafod y Fframwaith Safonau Foesegol, am ragor o fanylion ynglŷn â honiadau tra bo'r achosion hynny'n mynd rhagddynt.

Mewn ymateb i gwestiwn, eglurodd y Swyddog Monitro fod y Cynghorydd Roy Owen wedi ei atal tan yr Etholiad ym mis Mai, a gan nad oedd wedi ei ddiarddel fel aelod, bod ganddo hawl i sefyll eto fel ymgeisydd. Yn yr un modd, gan nad oedd y Cynghorydd Michael Stevens wedi'i ddiarddel o fod yn aelod o unrhyw gyngor, roedd modd iddo sefyll eto fel ymgeisydd ar Gyngor Tref Tywyn.

Awgrymodd y Cadeirydd mai dyma lle'r oedd pobl yn gweld y drefn braidd yn wan.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

## 8. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL DYFARNU CYMRU 2019-20 A 2020-21

Cyflwynwyd - adroddiad y Swyddog Monitro yn atodi copïau o Adroddiadau Blynyddol 2019-20 a 2020-21 Panel Dyfarnu Cymru er sylw'r pwyllgor.

Croesawyd y ffaith bod yr adroddiadau bellach yn cynnwys crynodebau o achosion.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiadau er gwybodaeth.**

Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau etholedig am eu gwasanaeth, gan ddymuno'n dda iddynt yn yr Etholiadau ym mis Mai.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y.b. a daeth i ben am 11.50 y.b.

______________________________

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **11 Gorffennaf 2022** |
| **Teitl :** | **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2021-22** |
| **Awdur :** | **Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau** |
| **Gweithredu :** | **Cynnig sylwadau a chymeradwyo’r adroddiad** |

**Cefndir**

1. Mae’r Pwyllgor yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar ei waith er mwyn ei gyflwyno i’r Cyngor llawn.  Penderfynodd y Pwyllgor y dylid gwneud hyn fel modd o godi proffil y Pwyllgor a hyrwyddo ei waith.

2. Atodaf er sylw’r Pwyllgor Adroddiad Blynyddol drafft  ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2021 hyd at 31 Mawrth 2022.

3. Gofynnir i’r Pwyllgor gymeradwyo cynnwys yr adroddiad.

4. Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau yn cyflwyno’r adroddiad i’r Cyngor Llawn yn ei gyfarfod nesaf.  Yna bydd yn cael ei ddosbarthu i’r cynghorau tref a chymuned a’i gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

**Argymhelliad**

5. Cymeradwyo’r Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor.

# ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGOR SAFONAU CYNGOR GWYNEDD

# 2021 - 2022

# RHAGAIR GAN Y CADEIRYDD

[i ddilyn]

**Dr Einir Young**
**Cadeirydd y Pwyllgor Safonau**

# RHAGAIR GAN Y SWYDDOG MONITRO

[i ddilyn]

**Iwan Evans**
**Swyddog Monitro**
**Cyngor Gwynedd**

# CYFLWYNIAD

Sefydlwyd y Pwyllgor yn 2001 o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig Cyngor Gwynedd, a chynghorau cymuned a thref Gwynedd. Gwna hyn mewn sawl ffordd:

- Cynorthwyo'r cynghorwyr a'r aelodau cyfetholedig i ddilyn y Cod Ymddygiad Aelodau.
- Cynghori'r awdurdod ar fabwysiadau neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad Aelodau
- Monitro gweithrediad y Cod Ymddygiad Aelodau
- Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi cynghorwyr ac aelodau cyfetholedig ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad.
- Penderfynu ar gwynion a gyfeirir ato gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fod aelodau wedi torri'r Cod Ymddygiad.
- Ystyried ceisiadau a wneir gan aelodau am oddefebau i'w galluogi i gymryd rhan mewn trafodaethau, er bod ganddynt fuddiant sy'n rhagfarnu o dan y Cod.
- Ystyried materion a gyfeirir ato dan drefn ddatrys cwynion lleol Cyngor Gwynedd
- Goruchwylio Polisi Rhoddion a Lletygarwch Aelodau Cyngor Gwynedd .

# AELODAU'R PWYLLGOR

Er bod y Pwyllgor Safonau yn un o bwyllgorau Cyngor Gwynedd, mae'n cynnwys mwyafrif o aelodau sydd heb unrhyw gysylltiad â'r Cyngor neu lywodraeth leol ('Aelodau Annibynnol'). Mae hefyd yn cynnwys aelod sy'n cynrychioli buddiannau'r cynghorau cymuned ('Aelod Pwyllgor Cymunedol'), yn ogystal â thri aelod etholedig o Gyngor Gwynedd. Rhaid i Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor ddod o blith yr Aelodau Annibynnol.

## Aelodau Annibynnol

**Margaret E Jones (aelod ers 2012)**

Er yn enedigol o Landrillo yn Rhos mae Margaret wedi treulio'r rhan fwyaf o'i hoes yn Chwilog. Bu'n dysgu yn Ysgol Abersoch am 32 o flynyddoedd, yn cynnwys 14 fel prifathrawes. Mae'n ddiacon yn Eglwys yr Annibynwyr Siloh, Chwilog, a bu'n Gadeirydd Cyngor Undeb yr Annibynwyr Cymraeg am 3 blynedd ac mae hi hefyd yn gyn Llywydd yr Undeb. Bu'n aelod o Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Gwynedd ac yn Is-gadeirydd hyd at yr ad-drefnu yn 2010. Mae hi'n aelod gweithgar o Bwyllgor Eisteddfod Chwilog ac yng ngofal y Seremoni Cadeirio.

**Dr Einir Young (aelod ers 2012)**

Wedi ei geni yn y Rhondda a'i magu yn Llanelli a Chwmtwrch mae Einir wedi ymgartrefu yng Ngwynedd ers dros ddeg mlynedd ar hugain. Bu'n byw am gyfnod yng Nghaliffornia ac mae wedi teithio led led y byd yn enwedig i Affrica yn gweithio gyda chymunedau ymylol. Cymru fu canolbwynt ei gwaith am bymtheg mlynedd olaf ei gyrfa ond noda mai'r un yw'r heriau sy'n wynebu cymunedau - yr angen am weledigaeth hir dymor, sicrhau fod penderfyniadau'n cael eu gwneud er gwella neu'n atal pethau rhag mynd yn waeth, integreiddio ar draws cymunedau, cyd weithio ac efallai'n bwysicaf oll cynnwys pawb. Dyma'r union egwyddorion sydd i'w gweld yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac mae hi'n frwd dros hyrwyddo'r ffyrdd o weithio sy'n cael eu hannog gan y ddeddf yn y Cyngor a thu hwnt. Mae cynnal safonau yn elfen cyn bwysiced i gynaliadwyedd ag yw ail gylchu ac arbed ynni, ac mae hi'n falch o'r cyfle o gael bod yn rhan o Bwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd ac i'w gadeirio. Fe ymddeolodd Einir o'i swydd fel Cyfarwyddwr Cynaliadwyedd Prifysgol Bangor ddiwedd Rhagfyr 2020 ond mae'n parhau i weithio yn rhan amser ar broject Ecoamgueddfa Pen Llŷn. Mae hi'n un o Gyfarwyddwyr Ynni Llŷn ac Ynni Cymunedol Cymru ac yn un o is-gadeiryddion yr Academi Heddwch. Yn ei hamser hamdden mae Einir yn mwynhau cerdded gyda'i chwaer a'r ci ar hyd llwybrau hir megis Llwybr Arfordir Cymru, Llwybr y Pererinion a Llwybr Llechi Eryri.

**David Wareing (aelod ers 2015)**

Symudodd David o Swydd Gaerhirfryn i'r Groeslon yn 2014 yn dilyn ei ymddeoliad o Heddlu Glannau Mersi. Gwasanaethodd am 26 mlynedd mewn amrywiaeth o rolau, yn fwyaf diweddar yn Adran Weithredol yr Heddlu yn y Pencadlys. Yn y swydd hon roedd yn cynllunio digwyddiadau cyhoeddus mawr, diogelwch y cyhoedd yn ystod gweithrediadau gan yr Heddlu a lleihau cymorth yr heddlu i asiantaethau allanol drwy fwy  o weithio mewn partneriaeth. Roedd yn arbenigo mewn asesu risg a sicrhau cydymffurfiaeth gyda deddfwriaeth iechyd a diogelwch. Cynrychiolodd David Heddlu Glannau Mersi ar bob un o'r pum Grŵp Ymgynghorol Diogelwch o fewn yr ardal honno. Mae'n credu'n gryf bod yn rhaid i weithredoedd y rhai sydd mewn swyddi cyhoeddus fod yn dryloyw ac yn atebol.

**Aled Jones (aelod ers 2016)**

Brodor o Lanbedr Pont Steffan, Ceredigion yn wreiddiol yw Aled. Astudiodd radd mewn Cymraeg a Daearyddiaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth. Ar ôl graddio ym 1999, symudodd i Gaernarfon i weithio gyda chwmni cyfieithu Cymen a daeth yn gydberchennog ar y cwmni yn 2007. Bellach mae'n cyflogi tîm o 20 aelod staff a dros 15 o gyfieithwyr llawrydd eraill. Mae'n byw ym Mangor gyda Tegwen a'r plant, Cai a Beca. Mae'n mwynhau pob math o chwaraeon a chaiff ei weld yn aml yn cefnogi Clwb Rygbi Bethesda a Chlwb Pêl-droed Dinas Bangor. Yn rhinwedd ei swydd fel cyfieithydd ar y pryd, mae ganddo brofiad helaeth o fynychu cyfarfodydd ar bob lefel o lywodraethiant felly mae mewn sefyllfa dda i arsylwi ar ymddygiad a safonau gan adnabod yr arferion gorau.

**Hywel Eifion Jones (aelod ers 2019)**

Wedi'i eni a'i addysgu yn Nyffryn Clwyd, roedd Eifion yn uwch reolwr gyda Banc Barclays yn gwasanaethu 34 mlynedd mewn nifer o ganghennau ledled Gogledd a Chanolbarth Cymru. Mae wedi ymgymryd â llawer o swyddogaethau gwasanaeth cyhoeddus gan gynnwys Cynghorydd Sir gyda Chyngor Ynys Mon ac aelod o Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru. Ar hyn o bryd mae'n Ynad ar fainc Gogledd Orllewin Cymru, yn aelod o Fyrddau Pensiwn Gwynedd, Betsi Cadwaladr ac Adra. Mae hefyd yn aelod o Banel Dyfarnu Cymru sy'n penderfynu honiadau o dorri'r cod ymddygiad gan aelodau etholedig Cynghorau Sir a Chymuned.

## <u>Aelod Pwyllgor Cymunedol</u>

**Cynghorydd Richard Parry Hughes (aelod ers 2017)**

Magwyd Richard ar fferm yn Llanaelhaearn ac aeth i Ysgol Ramadeg Pwllheli, Coleg Amaethyddol  Glynllifon ,a Choleg Seale Hayne (Prifysgol Plymouth) . Mae ganddo ôl

radd mewn Rheolaeth Fferm. Bu yn gweithio i bartneriaeth filfeddygon yn Chwilog am dair blynedd ac yn ddarlithydd rhan amser yng Ngholeg Glynllifon, cyn prynu fferm Penfras Uchaf Llwyndyrys lle bu ei deulu yn denantiaid arni am dros dri chan mlynedd. Mae'n briod ac Eleri ac mae ganddynt dri mab. Yn gyn arweinydd Cyngor Gwynedd, mae yn dal i ffermio. Mae ganddo brofiad helaeth o bwyllgorau gan ddal swyddi fel cadeirydd Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru cyn ymgymryd â chael ei ethol fel aelod o gyrff cyhoeddus. Bu yn aelod o Gyngor Sir Gwynedd o 1992 hyd 1996 ac yn aelod o Gyngor Gwynedd o 1996 i 2008. Bu'n arwain Cyngor Gwynedd o 2003 i 2008 a hefyd yn lefarydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar yr Amgylchedd a Chynllunio yn ystod y cyfnod yma. Mae'n aelod brwd o Gwmni Drama Llwyndyrys a chefnogwr amryw o gymdeithasau eraill lleol megis, Antur Aelhaearn a Chyfeillion Eglwys Carnguwch. Mae'n gweithio'n wirfoddol fel gweithiwr achos i'r Farm Community Network . Mae'n aelod o Gyngor Cymuned Llannor ers 1992.

## Aelodau Cyngor Gwynedd

**Cynghorydd Dewi Roberts (aelod ers 2017)**

Mae Dewi yn byw yn Llanengan ger Abersoch gyda'i wraig Bethan, ac mae ganddynt 5 o blant sydd i gyd yn oedolion. Roedd yn beiriannydd ac yn ddarlithydd peirianneg yng Ngholeg Technegol Bangor cyn ymuno â Heddlu Gogledd Cymru. Yno bu'n Dditectif yn gweithio'n lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, cyn ymddeol ar ôl 29 mlynedd o wasanaeth.

Cafodd ei ethol ym mis Mai 2017 fel Cynghorydd Gwynedd yn cynrychioli Ward Abersoch. Ers ei ethol mae wedi Cadeirio Pwyllgor Gwasanaeth Democrataidd ac mae'n Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Gofal, Cadeirydd Pwyllgor Ardal Dwyfor, yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ac yn Gadeirydd Cyngor Iechyd Cymuned Gwynedd.

Yn ogystal â bod yn aelod o'r Pwyllgor Safonau, mae hefyd yn aelod o'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol, yn Warden Eglwys Llanengan ac yn eistedd ar Gyngor Plwyf yr Eglwys. Mae hefyd yn gwasanaethu fel Llywodraethwr ar Ysgol Abersoch ac Ysgol Botwnnog.

**Cynghorydd Beth Lawton (aelod ers 2017)**

Mae Beth yn byw ym Mryncrug ac yn berchen ffatri leol. Mae'n Gynghorydd Sir dros ardal Bryncrug/Llanfihangel sydd yn cynnwys pentre' Bryncrug ac Abergynolwyn. Mae hefyd yn Gynghorydd Cymuned ac yn gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Craig y Deryn. Mae'n weithgar ar sawl pwyllgor yn y gymuned yn cynnwys Carnifal Abergynolwyn, Ffair Wledig Bryncrug, Pwyllgor Apêl Ysbyty Tywyn a llawer eraill.

Mae'n Is- gadeirydd Pwyllgor Craffu Gofal Cyngor Gwynedd ac yn gyfarwyddwr ar y cwmni hamdden newydd .

**Cynghorydd Anne Lloyd-Jones (aelod ers 2017)**

Mae Anne yn byw ac yn rhedeg busnes twristiaeth fferm yn Nhywyn, ac mae wedi cynrychioli Tywyn ar Gyngor Gwynedd ers 1995 a chyn hynny roedd yn aelod o Gyngor Dosbarth Meirionnydd am wyth mlynedd. Etholwyd hi'n gyntaf fel aelod o Gyngor Tref Tywyn yn 1985 a hi oedd Faeres gyntaf yn 1991, ac eto yn 2004, ac roedd yn Gadeirydd Cyngor Gwynedd yn 2009. Mae hi'n gyn-gadeirydd Pwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd ac yn un o aelodau gwreiddiol Bwrdd Rheoli Cartrefi Cymunedol Gwynedd. Roedd hi'n aelod o Gyngor Iechyd Cymuned Meirionnydd, ac yn Gadeirydd presennol Cronfa Apêl Ysbyty Tywyn a'r Cylch.

Mae hi'n aelod ac yn gyn-gadeirydd Ysgol Penybryn ac yn aelod ar gorff Llywodraethol Ysgol Uwchradd Tywyn.

Roedd Anne yn Gadeirydd Twristiaeth Canolbarth Cymru rhwng 2001-2016, yn aelod sefydliadol ac yn gyn-lywydd a Thrysorydd Clwb Inner Wheel Tywyn a bu'n Drysorydd cangen leol yr NSPCC ers 1989.

Mae Anne yn briod â John ac mae ganddyn nhw dair merch a dwy wyres sy'n efeilliaid.

## Y Swyddog Monitro

Mae Swyddog Monitro'r Cyngor, Iwan Evans, ynghyd a swyddogion o'r Gwasanaeth Cyfreithiol a'r Gwasanaeth Democrataidd yn cefnogi'r Pwyllgor Safonau yn ei waith. Mae gan y Swyddog Monitro rôl statudol i sicrhau bod y Cyngor, ei aelodau a'i swyddogion yn gweithredu yn briodol ac yn gyfreithlon.

**Manylion Cyswllt**

- Iwan Evans, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro. E-bost: IwanGDEvans@gwynedd.llyw.cymru Ffôn (01286) 679015
- Siôn Huws, Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau a Dirprwy Swyddog Monitro. E-bost: sionhuws@gwynedd.llyw.cymru Ffôn: (01286) 679168

# GWAITH Y PWYLLGOR YN YSTOD 2021 - 2022

Mae gwaith y Pwyllgor wedi cynnwys y canlynol dros y flwyddyn (ceir rhaglen waith lawn y Pwyllgor yn yr **Atodiad 1**):

## Achosion fu gerbron y Pwyllgor

Cyfeiriwyd un gŵyn o dorri'r Cod Ymddygiad at y Pwyllgor am benderfyniad yn ystod y flwyddyn.

- Yn dilyn gwrandawiad ar 8 Rhagfyr 2022 dath y Pwyllgor i'r casgliad bod yr aelod, Y Cyng. Mike Stevens, Cyngor Tref Tywyn, wedi methu â chydymffurfio â Chod Ymddygiad Cyngor Tref Tywyn gan iddo dorri'r darpariaethau canlynol:

    - 4(a) Rhaid i chi gyflawni'ch dyletswyddau gan roi sylw dyledus i'r egwyddor y dylid cael cyfle cyfartal i bawb beth bynnag fo'u rhywedd, hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, oed neu grefydd.

    - 4(b) Trin pobl eraill gyda pharch ac ystyriaeth.

    - 4(c) Rhaid i chi beidio â bwlio nac aflonyddu ar neb, gan gynnwys aelodau eraill, swyddogion y cyngor neu aelodau o'r cyhoedd.

    - Daeth y Pwyllgor i'r casgliad hefyd bod yr ymddygiad yn ddigon difrifol i dorri Paragraff 6(1)(A) o'r cod, sef na ddylid ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ystyried ei fod yn dwyn anfri ar y swydd neu'r Awdurdod.

Penderfynodd y Pwyllgor y dylai'r Aelod dderbyn cerydd, gan mai dyna'r gosb fwyaf y gall y Pwyllgor ei roi yn dilyn ei ymddiswyddiad o'r Cyngor, ond nododd heblaw am ei ymddiswyddiad o'r Cyngor, y byddai'n debygol o fod wedi ei wahardd, a hynny am yr uchafswm posib.

## Cwynion eraill

Hysbysir y Pwyllgor hefyd o benderfyniadau'r Ombwdsmon ar y cwynion hynny na chyfeirir at y Pwyllgor am benderfyniad, a cheir crynodebau ohonynt yn **Atodiad 2.**

## Goddefebau

Mae'r Cod Ymddygiad i Aelodau yn darparu na all cynghorydd gymryd rhan mewn trafodaeth os oes ganddo/i 'fuddiant sy'n rhagfarnu'. Serch hynny mae gan aelod yr hawl i wneud cais i'r Pwyllgor am ganiatâd i gymryd rhan er bod ganddo/i'r buddiant yma, h.y. goddefiad.

- Ni chyflwynwyd un cais am oddefeb  i’r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn.

## Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru

Mae Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru yn rhoi’r cyfle i gynrychiolwyr o holl bwyllgorau safonau awdurdodau’r gogledd gyfarfod.  Pwrpas y fforwm yw galluogi pwyllgorau safonau’r ardal i drafod a rhannu syniadau, arferion da ac adnoddau, a hefyd gyflwyno barn ar y cyd ar y lefel genedlaethol.  Mynychir cyfarfodydd y Fforwm gan Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor. Erbyn hyn mae Pwyllgorau Safonau Ceredigion a Phowys wedi ymuno â’r Fforwm.

## Yr Adolygiad o’r Fframwaith Foesegol

Sefydlodd y Pwyllgor Grŵp Tasg a Gorffen i drafod canfyddiadau’r Adolygiad Annibynnol o’r Fframwaith Safonau Moesegol yng Nghymru, gan roi sylw penodol i’r materion canlynol ac adrodd yn ol i’r Pwyllgor :-

- Ffurf y Pwyllgor Safonau i’r dyfodol;

- Sut y gellir gwneud y pwyllgor yn fwy gweledol ac yn fwy gweithredol o fewn y Cyngor;

- Sut y gellir cryfhau a gwneud y cysylltiad rhwng y pwyllgor a gwahanol wasanaethau’r Cyngor, megis y Gwasanaethau Democratiaeth, yn fwy amlwg.

**Atodiad 1**

# RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SAFONAU 2021-2022

**14 MEHEFIN 2021**

- Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 20120/21

  Derbyn adroddiad ar newidiadau i'r Fframwaith Foesegol yn sgil Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
- Ystyried Coflyfr yr Ombwdsmon
- Derbyn adroddiad ar honiadau yn erbyn aelodau

**7 GORFFENNAF 2021**

- Cyfarfod Arbennig i ystyried adroddiad yr Ombwdsmon ar ymchwiliad i gŵyn yn erbyn cynghorydd, a dod i benderfyniad os oedd angen bwrw ymlaen i gynnal gwrandawiad llawn.

**26 HYDREF 2021**

- Cyfarfod Arbennig i ystyried a phenderfynu ar gais dan Bolisi Indemniad y Cyngor gan aelod oedd yn wynebu gwrandawiad .

**8 TACHWEDD 2021**

- Trafodaeth ar yr Adolygiad o'r Fframwaith Safonau Moesegol i Gymru
- Ystyried Adroddiad Blynyddol yr Ombwdmon 2020-21
- Derbyn adroddiad ar honiadau yn erbyn aelodau

**8 RHAGFYR 2021**

- Cyfarfod Arbennig i gynnal gwrandawiad a phenderfynu ar gŵyn o dorri'r Cod Ymddygiad a gyfeiriwyd at y Pwyllgor gan Ombwdmon Gwasnaethau Cyhoeddus Cymru.

**14 CHWEFROR 2022**

- Ystyried adroddiad yn manylu ar ganfyddiadau ac argymhellion y Grŵp Tasg a sefydlwyd gan y pwyllgor i drafod canfyddiadau'r Adolygiad o'r Fframwaith Safonau Moesegol i Gymru.

- Cymeradwyo'r adroddiad ar ganlyniad yr ymchwiliad i'r gŵyn yn erbyn y Cynghorydd Michael Stevens o Gyngor Tref Tywyn

- Derbyn adroddiad ar honiadau yn erbyn aelodau

- Ystyried adroddiadau Blynyddol 2019-20 a 2020-21 Panel Dyfarnu Cymru

**Atodiad 2**

**Hysbyswyd y Pwyllgor o'r penderfyniadau canlynol gan yr Ombwdsmon ar honiadau o dorri'r cod ymddygiad yn erbyn cynghorwyr sirol a chynghorwyr cymuned a thref Gwynedd:**

| Honiad o dorri'r Cod Ymddygiad | Penderfyniad yr Ombwdsmon |
|---|---|
| **Cwyn Rhif 202100258**<br><br>Cwyn gan gynghorydd tref fod cyd-gynghorydd, fel Cadeirydd Pwyllgor Personél y Cyngor, wedi methu â'i drin â pharch ac ystyriaeth mewn cysylltiad â chwyn a gyflwynwyd ganddo | Dim ymchwiliad.<br><br>Dim tystiolaeth bod yr achwynydd wedi cael ei drin yn wahanol i unrhyw achwynydd arall. Roedd y penderfyniad i argymell symud yr achwynydd o un o bwyllgorau'r cyngor yn un yr oedd gan y Pwyllgor Personél hawl i'w gymryd.<br><br>Dim tystiolaeth bod gan y cynghorydd fuddiant amhriodol, ariannol neu bersonol yng nghanlyniad y cyfarfodydd fel yr honnir. |
| **Cwyn Rhif 202101077**<br><br>Cwyn gan aelod o'r cyhoedd bod cynghorydd cymunedol wedi trydar ei gefnogaeth i safbwyntiau gwleidyddol eithafol. | Dim ymchwiliad.<br><br>Dim tystiolaeth - roedd cynnwys y trydariad yn wahanol i'r honiad a wnaed yn ei erbyn |

| | |
|---|---|
| **Cwyn Rhif 202101165**<br><br>Cwyn gan aelod o'r cyhoedd bod cynghorydd cymunedol wedi gwneud pedwar trydariad a oedd yn torri Polisi Cyfryngau Cymdeithasol y cyngor trwy wahaniaethu yn erbyn menywod, methu â dangos parch ac ystyriaeth a dwyn anfri ar y Cyngor. | Dim ymchwiliad<br><br>Gellid yn rhesymol dweud bod y trydariadau y cyfeirir atynt yn y gŵyn yn dod o fewn yr hyn a ystyrir fel sylwadau gwleidyddol. Ni pherswadiwyd yr Ombwdsmon fod y cynnwys mor wael fel y byddai'n gyfystyr â thorri'r Cod. Yn ychwanegol at hyn, hyd yn oed pe bai toriad yn cael ei brofi, ni chafodd ei berswadio y byddai unrhyw gosb a allai gael ei gosod yn ymyrraeth gymesur â hawliau ECHR / HRA y Cynghorydd. Felly, ni fyddai ymchwiliad er budd y cyhoedd. |
| **Cwyn Rhif 202002960**<br><br>Roedd y gŵyn yn ymwneud â sylwadau ar Facebook.  Credai'r yr achwynydd eu bod yn homoffobig gyda'r bwriad o fwlio un o'i weithwyr. | Ar ôl cynnal ymchwiliad penderfynodd yr Ombwdsmon nad oedd angen cymryd camau pellach.<br><br>Gan nad oedd yr aelod yn gweithredu fel cynghorydd ar y pryd ym marn yr Ombwdsmon, gallai ond ystyried honiad o ddwyn anfri ar ei swydd neu ar ei awdurdod.<br><br>Gwadodd yr aelod fod y sylwadau yn rhai homoffobig a derbyniodd yr Ombwdsmon y gellid eu dehongli mewn ffordd wahanol. Dywedodd yr aelod nad oedd yn bwriadu nag yn disgwyl achosi unrhyw boen, ei fod yn difaru ei weithred ac yn fodlon ymddiheuro.<br><br>Gan nad oedd cysylltiad digonol rhwng y sylwadau a'i rôl fel cynghorydd, ac yng ngoleuni esboniad yr aelod am y sylwadau a'i gydnabyddiaeth na ddylai fod wedi gwneud y sylwadau, nid oedd yn y budd cyhoeddus i gymryd unrhyw gamau pellach. |

| | |
|---|---|
| **Cwyn Rhif 202102802**<br><br>Cwyn gan glerc am ohebiaeth gan aelod yn ymwneud â threfniadau cyfarfod y cyngor. | Dim ymchwiliad.<br><br>Roedd sylwadau'r aelod am gynnal cyfarfodydd a phrosesau cwyno'r cyngor yn wleidyddol eu natur ac felly'n annhebygol o dorri'r cod.<br><br>Nid oedd hi'n ymddangos i'r Ombwdsmon fod yr aelod wedi ceisio bwlio'r achwynydd.<br><br>Nid oedd cynnwys e-bost penodol yn anghwrtais nac yn gallu torri'r Cod, ond roedd cysylltu gyda'r achwynydd o ystyried ei sefyllfa ar y pryd yn annoeth a byddai'n atgoffa'r aelod fod gan aelod rywfaint o gyfrifoldeb am iechyd a lles gweithwyr y cyngor. |
| **Cwyn Rhif**<br>**202002215 & 202002555** | Yn dilyn ymchwiliad cyfeiriodd yr Ombwdsmon gwynion yn erbyn y Cynghorydd Roy Owen at Banel Dyfarnu Cymru.<br><br>Penderfynodd Tribiwnlys y dylid atal y cynghorydd rhag bod yn aelod o Gyngor Gwynedd a Chyngor Tref Frenhinol Caaernarfon am gyfnod o 9 mis neu, os yn gyfnod llai , hyd nes diwedd ei dymor mewn swydd.<br><br>Gellir gweld penderfyniad llawn y Panel ar ei wefan (www.paneldyfarnu.llyw.cymru) neu drwy ddilyn y ddolen ganlynol:<br><br>Penderfyniadau \| The Adjudication Panel for Wales (llyw.cymru) |

| | |
|---|---|
| **Cwyn Rhif 201906873** | Yn dilyn ymchwiliad cyfeiriodd yr Ombwdsmon gwynion yn erbyn y Cynghorydd Mike Stevens, Cyngor Tref Tywyn at y Pwyllgor Safonau.<br><br>Penderfynodd y Pwyllgor y dylid ceryddu'r aelod. Hon oedd y gosb fwyaf oedd ar gael i'r Pwyllgor yn dilyn ymddiswyddiad yr aelod or' Cyngor Tref. Ceir manylion pellach mewn adroddiad ar wahân i'r Pwyllgor. |



| **Aelod y gwnaed y gŵyn yn ei (h)erbyn** | |
|---|---|
| Aelod o gyngor cymuned | 5 |
| Aelod o Gyngor Gwynedd | 1 |
| Aelod o Gyngor Gwynedd a chyngor cymuned | 1 |
| **Natur yr achwynydd** | |
| Cynghorydd | 3 |
| Aelod o'r cyhoedd | 3 |
| Swyddog | 1 |
| **Natur yr honiad** | |
| Ymddygiad cyffredinol | 7 |
| Datgan Buddiant | |
| Ymddygiad cyffredinol a Datgan Buddiant | |
| **Canlyniad** | |
| Dim ymchwiliad | 4 |
| Ymchwiliad – dim tystiolaeth o dorri'r Cod Ymddygiad | 0 |

| | |
|---|---|
| Ymchwiliad –dim camau pellach | 1 |
| Ymchwiliad – cyfeiriad at y Pwyllgor Safonau | 1 |
| Ymchwiliad – cyfeiriad at Banel Dyfarnu Cymru | 1 |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD** | **11 Gorffennaf 2022** |
| **TEITL** | **Hunan Asesiad a Rhaglen Waith** |
| **AWDUR** | **Swyddog Monitro** |

1. Mae dau fwriad ar gyfer yr adroddiad yma sef cynnal hunan asesiad o waith ac allbynnau'r Pwyllgor yn ystod 2021-22 ac ystyried rhaglen waith drafft ar gyfer 2022-23.

2. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau wedi gosod drwy statud yng Nghyfansoddiad y Cyngor ac mae'n amserol efallai fod y Pwyllgor yn talu sylw newydd ar y rhain ar ddechrau tymor newydd er ffurfio cynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn.

   (a) Hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan Gynghorwyr ac Aelodau cyfetholedig yr Awdurdod;

   (b) Cynorthwyo'r Cynghorwyr a'r Aelodau cyfetholedig i ddilyn y Cod Ymddygiad Aelodau;

   (c) Cynghori'r Cyngor ar fabwysiadu neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad Aelodau;

   (ch) Monitro gweithrediad y Cod Ymddygiad Aelodau;

   (d) Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi Cynghorwyr ac Aelodau cyfetholedig ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad Aelodau.

3. Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor ystyried y swyddogaethau a restrir yn y golofn gyntaf ac yna nodi pa asesiad mae'n credu sy'n berthnasol iddynt gan ddefnyddio'r categorïau canlynol:

   Categori 1 – Fod y Pwyllgor wedi gwneud cynnydd sylweddol yn cyflawni'r swyddogaeth neu yn achos tasgau penodol nid yw'r angen i weithredu wedi codi.

   Categori 2 - Fod y Pwyllgor wedi gweithredu'r swyddogaeth yn sylweddol

   Categori 3 - Fod y Pwyllgor wedi gweithredu'r swyddogaeth ond mae angen rhoi sylw pellach.

   Categori 4 - Nid oes tystiolaeth fod y Pwyllgor wedi gweithredu'r swyddogaeth ac mae sail i awgrymu fod angen rhoi sylw i'r maes.

Mae angen nodi'r dystiolaeth sy'n cefnogi'r categori mae'r Pwyllgor yn ei ddyfarnu. Mae'r golofn "Tystiolaeth" yn dangos peth enghreifftiau o dystiolaeth ond mae'n bosib y bydd aelodau'r Pwyllgor yn gallu ychwanegu ati.

4. O ddyfarnu categori i bob swyddogaeth a nodi'r dystiolaeth bydd yn bosib i'r Pwyllgor ddod i gasgliad ynglŷn â pha gamau ychwanegol sydd angen eu cymryd (os o gwbl). Mae'r golofn olaf yn cynnwys rhai awgrymiadau am gamau pellach fydd yn bwydo trwodd i raglenni gwaith y Pwyllgor yn y dyfodol.

5. Mae'r pwyntiau gweithredu o'r gweithgor wedi eu hatodi yn Atodiad 3 er ystyriaeth y Pwyllgor ynglŷn â chynnwys y cynllun gwaith. Mae'n bwysig fod aelodau yn ymwybodol y byddai rhai pwyntiau gweithredu angen adnoddau ychwanegol penodol.

6. Atodiadau

Yn Atodiad 1 ceir hunan asesiad drafft er ystyriaeth gan y Pwyllgor

Yn Atodiad 2 Rhaglen Waith drafft ar gyfer 2022-23

Yn Atodiad 3 Diweddariad Grwp Gweithredol Cyngorau Cymuned.

**ARGYMHELLIAD**

**Gofynnir i'r Pwyllgor gynnal Hunan Asesiad o'r perfformiad yn 2021-2022 ynghyd a chymeradwyo rhaglen waith ar gyfer 2022-23**

**ATODIAD 1**

**HUNAN ASESIAD Y PWYLLGOR SAFONAU 2021/22**

| SWYDDOGAETH | ASESIAD (1/2/3/4) | Tystiolaeth | Camau pellach |
|---|---|---|---|
| Hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau | | Mae'r Cadeirydd ac Is Gadeirydd wedi mynychu Fforwm Safonau Gogledd Cymru i rannu profiadau hefo pwyllgorau safonau eraill.<br><br>Cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor Llawn<br><br>Pwyllgor wedi derbyn adroddiad ar Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau ( Cymru ) 2021 | Parhau i fynychu a chefnogi |
| Cynorthwyo'r aelodau i gadw at y Cod Ymddygiad | | Swyddog Monitro a'i dim yn darparu cyngor ac arweiniad mewn cyfarfodydd ac ar sail un i aelodau. | Adfer camau hyffroddiant pan mae adnoddau yn caniatau |
| Cynghori'r Cyngor ynglŷn â mabwysiadu neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad | | Dim achlysur wedi codi i ddiwygio'r Cod. | |
| Monitro gweithrediad y Cod Ymddygiad | | Derbyn adroddiadau rheolaidd o honiadau yn erbyn aelodau<br><br>Derbyn adroddiadau blynyddol yr Ombwdsman a Phanel Dyfarnu Cymru | Parhau i fonitro ystyried dulliau amgen o dderbyn gwybodaeth<br><br>Derbyn adroddiadau rheolaidd o Lyfr Achosion Cod Ymddygiad yr Ombwdsman |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Penderfynodd y Pwyllgor gychwyn gwaith ynglyn a'r dyletswyd newydd a osodwyd ar Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol ynglyn a'g ymddygiad eu haelodau | Derbyn adroddiadau blynyddol am y gofrestr buddiannau a lletygarwch.<br><br>Yn diluyn yr Etholiad bydd camau yn cael eu cymeryd I weithio gyda Arweinyddion Grwp I sefydlu trefniadau gweithredol ar gyfer y ddarpariaeth newydd |
| Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi aelodau ar faterion yn ymwneud a'r Cod Ymddygiad | | Trefnwyd hyfforddiant annwytho ar gyfer aelodau newydd Cyngor Gwynedd yn paratoi at yr etholiadau. | Angen edrych ar ddarparu hyfforddiant newydd |
| Rhoi goddefebau i aelodau | | Ceisiadu wedi eu ystyried dan y drefn newydd. | |
| Ymdrin ag adroddiadau o dribiwnlys achos ac unrhyw adroddiadau gan y Swyddog Monitro ar faterion a gyfeiriwyd gan yr Ombwdsmon | | Ni chyfyd angen am wrandawiadau yn ystod y flwyddyn | |
| Awdurdodi'r Swyddog Monitro i dalu lwfansau i bersonau a gynorthwyodd gydag ymchwiliad | | Ymdrinwyd a'g un achos a gyfeirwyd at y Pwyllgor gan yr Ombwdsman. | |
| Ymarfer y swyddogaethau uchod mewn perthynas â chynghorau cymuned | | Swyddog Monitro a'i dîm yn darparu cyngor ac arweiniad i gynghorau, clercod ac aelodau.<br><br>Mabwysiadu peilot ar gyfer hyfforddi Cod Ymddygiad. Wedi cynnal sesiwn I beilotau cynnwys y cwrs.<br>. | Angen ystyried adfer y rhaglen ar sail rhithiol pan mae adnoddau yn caniatau |

**ATODIAD 2/ APPENDIX 2**

| Gwaith Pwyllgor Safonau 2020-21 | Standards Committee Work 2020 - 21 |
|---|---|
| **11 Gorffennaf 2022**<br><br>Adroddiad Blynyddol<br><br>Honiadau yn erbyn aelodau<br><br>Llyfr Achosion yr Ombwdsman<br><br>Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau ( Cymru) 2021 | **11 Gorffennaf 2022**<br><br>Annual Report<br><br>Allegations Against Members<br><br>Ombudsmans Code of Conduct Casebook<br><br>Local Government and Elections Act ( Wales) 2021 |
| **21 Tachwedd 2022**<br><br>Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch<br><br>Cofrestr Datgan Buddiant<br><br>Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsman<br><br>Honiadau yn erbyn Aelodau<br><br>Mabwysiadu Protocol Arweinyddion grwpiau Gwleidyddol | **21 November 2022**<br><br>Gifts and Hospitality Register<br><br>Declaration of Interest Registers<br><br>Ombudsman's Annual Report<br><br>Allegations Against Members<br><br>Adopt Political Group Leaders Protocol |
| **13 Chwefror 2022**<br><br>Adroddiad Blynyddol y Panel Dyfarnu<br><br>Honiadau yn erbyn aelodau | **13 February 2022**<br><br>Annual Report of Adjudication Panel<br><br>Allegations against members<br><br>Self-Assessment and Work Programme |

| | |
|---|---|
| Hunan Asesiad a Rhaglen Waith<br><br>Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor<br><br>. | Annual Report of the Committee |

**Atodiad 3**

**Nodiadau'r Grŵp Tasg a Gorffen – Y Fframwaith Safonau Moesegol - 20/1/22**

Pwyntiau Gweithredu:-

| **Gweithrediad** | **Sylw Swyddog Monitro** |
|---|---|
| • Angen gwneud trosolwg o'r clercod. Cael rhyw syniad faint maen nhw'n cael eu talu a chreu 'heat map' i ddangos lle mae mwyafrif y problemau yn codi.<br>• Gwneud crynodeb pellach o'r set o amgylchiadau roedd Dirprwy Swyddog Monitro yn son amdanynt, i weld os oes amgylchiadau penodol ynghlwm wrth y 'gwres' sydd yn y cynghorau lle mae'r problemau. | • Byddai asesiad o lle mae angen am gefnogaeth ar faterion Fframwaith Foesegol yn caniatáu blaenoriaethu e.e hyfforddiant.<br>• Cynnal gwaith ymchwili i adnabod ffactorau sydd yn cyfrannu at greu neu fodolaeth problemau ymddygiad aelodau<br>• Er y byddai modd cael ystadegau tal gan e.e Unllais Cymru mae gwybodaeth tal unigolion yn wybodaeth sydd yn cynrychioli data personol. |
| • Ystyried oes lle i ail-edrych ar ddatgan buddiant? H.y. pobl ofn peidio datgan buddiant, ond efallai bod angen mwy o eglurder o ran lle mae'r ffin. Ydi pob Swyddog Monitro yn dehongli datgan buddiant yn yr un ffordd? Angen cysondeb Cymru gyfan ar beth yw datgan buddiant gan ei bod yn bosib' bod rhai pobl yn ei ddehongli yn wahanol i'w gilydd. Gofyn i'r Ombwdsmon ddarparu canllaw syml ar ddatgan buddiant. | • Mae arweiniad ar ddatgan buddiant yn rhan rheolaidd o waith Swyddog Monitro ynghyd a'r tim . Mae Canllawiau yr Ombwdsman yn darparu arweiniad ar y Cod sydd yn gymharol rhwydd i'w ddeall. Nid oes tystiolaeth amlwg fod dehongliad yn amrywio yn sylweddol o Gyngor i Gyngor ac mae'n fater sydd yn hynod o sensitif i'r ffeithiau. |
| | |

| | |
|---|---|
| • Faint o wybodaeth ddylem ni fel Pwyllgor Safonau gael?  E.e. yr adroddiad Honiadau yn erbyn Aelodau. Ddylem ni gael mwy o wybodaeth mewn mwy o fanylder? | • Mae modd ystyried hyn ond mae rhaid dal mewn cof fod gofynion cyfrinacholdeb a cyfiawnder naturiol sydd yn berthnasol hefyd. |
| • . Angen edrych ar y drefn datrys lleol o ran rôl y Pwyllgor Safonau – e.e. y syniad o gydweithio gyda chynghorau eraill. | • Bydd angen adolygu y sefyllfa wrth i ddarpariaethau Adroddiad Penn gael sylw gan y Llywodraeth. Fodd bynnag mae angen bod yn wirioneddol fyw i'r her adnoddau byddai trefniant o'r fath yn ei gynhyrchu i Swyddogion Monitro |
| • Edrych ar ddefnyddio adnoddau ehangach y Cyngor, e.e. Adnoddau Dynol, cydraddoldeb, ayb, i ddarparu hyfforddiant ar faterion llai cyfreithiol, ond mwy ymddygiadol. | • Darperir rhaglen eang o hyfforddiant i aelodau'r Cyngor sydd yn cwmpasu materion megis cydraddoldeb . Byddai modd trefnu cyflwyniad i'r Pwyllgor ar y drefn, hyfforddi a'r hyn sydd ar gael |
| • Bod y Cadeirydd a'r Aelod Pwyllgor Cymunedol yn gwneud darn o waith gyda chlercod cynghorau cymuned a thref i weld beth fydden nhw'n weld yn ddefnyddiol.  Adnabod cwpl o glercod o gynghorau blaenllaw i gael trafodaeth gychwynnol.   Hefyd, bod y clercod yn gallu bwydo eu barn yn ôl yn rheolaidd | • Mae modd trefnu hyn a byddai'n gyfrwng nid yn unig i ddatblygu gwasanaethau ond creu y cyswllt byw gyda'r Cynghorau Tref a Chymuned. Byddai angen darparu adnodd. |
| • Mae gennym ni 2 her, sef yr ochr gyfreithiol/technegol/statudol – y datgan buddiant, ayb, a hefyd y materion fwy agored i ddehongliad  – y | • Mae nifer o gysyniadau sydd yn gorgyffwrdd yn yr adborth ma ac mae angen mwy o waith i ddeall y gweithrediadau sydd yn deillio |

| | |
|---|---|
| parch, ond hefyd yr elfennau ynghlwm wrth barch, sydd hefyd yn statudol, ac sydd ynghlwm wrth y Ddeddf Cydraddoldeb, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ( Cymru) 2015, yr heriau ynghlwm wrth gydweithio ar draws y Cyngor, dwyn pobl eraill i mewn sy'n gallu helpu gyda themâu o fewn y pwnc 'parch'. Wrth adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Safonau, dylid rhannu'r pwyntiau gweithredu o dan dau bennawd, sef y 'parch' (y dynol) a'r 'buddiant' (y deddfol), gan ystyried sut ydym ni'n cyfathrebu hynny i'r bobl sydd angen gwybod, sef yr aelodau, a hefyd y clercod a'r bobl sy'n gweinyddu'r cynghorau tref a chymuned, gan mai yno mae'r heriau mwyaf | |
| • Cynnal trafodaeth gyda'r Prif Weithredwr ac Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol er mwyn gwneud yn siŵr bod safonau yn uwch yn eu meddyliau, h.y. fel bod safonau ddim yn fater sy'n eistedd gyda'r Pwyllgor Safonau a'r Swyddog Monitro yn unig. | • Mae hyn ar waith drwy ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol Etholiadau (Cymru ) 2021 a'r dyletswydd newydd ar Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol. |
| • Gan dderbyn bod dal ymgeiswyr etholiadol yn gyfrifol am eu hymddygiad y tu hwnt i'n cylch gorchwyl ni, mae hyn yn rhywbeth i'w grybwyll wrth y grwpiau gwleidyddol. | • Roedd Cyfamod Ymgyrch Deg wedi ei pharatoi drwy'r Gymdeithas Lywodraeth Lleol Cymru . Fe'i rannwyd yn helaeth gyda aelodau yng Ngwynedd ac ar draws Cymru. |

| Pwyllgor : | Y PWYLLGOR SAFONAU |
|---|---|
| Dyddiad : | 11 Gorffennaf 2022 |
| Teitl : | Honiadau yn erbyn aelodau |
| Awdur : | Siôn Huws, Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau |
| Pwrpas : | Er gwybodaeth |

**1. Cefndir**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor am benderfyniadau'r Ombwdsmon ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau.

**2. Penderfyniadau**

Derbyniwyd y penderfyniadau canlynol oddi wrth yr Ombwdsmon ers yr adroddiad diwethaf.

| Cwyn | Penderfyniad |
|---|---|
| **Cwyn Rhif 202005528**<br><br>Bod cynghorydd tref wedi torri'r Cod:<br><br>• wrth wneud honiadau ffug o wariant anawdurdodedig a chamddefnyddio arian gan y cyn Glerc<br><br>• drwy danseilio a dilorni'r Cyn Glerc mewn cyfarfodydd, cyhuddo aelodau eraill o ddweud celwydd a chydgynllwynio gyda'r Cyn Glerc mewn gweithgaredd anghyfreithlon, ac wedi targedu unrhyw aelod oedd yn cefnogi'r Cyn Glerc mewn ymgais i'w dychryn ac i ddwyn anfri ar y Cyn Glerc. | Dirwyn yr ymchwiliad i ben<br><br>Dechreuwyd ymchwiliad oherwydd bod y gŵyn yn bodloni dau gam y prawf 2 gam ar sail y wybodaeth a ddarparwyd yn y gŵyn.<br><br>Gan nad oedd yr Achwynydd wedi dychwelyd ei ddatganiad tyst, ac nad oedd y cynghorydd bellach yn aelod nid oedd yr Ombwdsmon o'r farn y byddai er budd y cyhoedd i adnoddau gael eu defnyddio i barhau a chwblhau'r ymchwiliad. |
| **Cwyn Rhif 202004473**<br><br>Cwyn bod aelod wedi rhannu ddeunydd ar ei gyfrif Facebook a oedd yn taflu amheuaeth ar fodolaeth COVID-19 ac am y brechlyn, a phan ymddangosodd ar sioe deledu i drafod ei farn am COVID-19 a'r brechlyn. | Canfu'r Ombwdsmon fod gan yr Aelod hawl i ryddid mynegiant ac i ddal a mynegi ei farn o dan Erthygl 10 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. |

| | |
|---|---|
| | Roedd tystiolaeth yn awgrymu nad oedd yr Aelod yn cynrychioli 'safbwynt y Cyngor'. Ni roddodd yr Aelod gyfarwyddiadau i aelodau'r cyhoedd yn groes i'r mesurau iechyd cyhoeddus a oedd ar waith ar y pryd. Felly, nid oedd yr Ombwdsmon o'r farn bod yr Aelod wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad. |

**3. Dadansoddiad o'r Cwynion**

Isod ceir dadansoddiad o natur y cwynion y cafwyd penderfyniad arnynt hyd yn hyn eleni (2022/23):

| **Aelod y gwnaed y gŵyn yn ei (h)erbyn** | |
|---|---|
| Aelod o gyngor cymuned | 1 |
| Aelod o Gyngor Gwynedd | 1 |
| Aelod o Gyngor Gwynedd a chyngor cymuned | |
| **Natur yr achwynydd** | |
| Cynghorydd | 1 |
| Aelod o'r cyhoedd | |
| Swyddog | 1 |
| **Natur yr honiad** | |
| Ymddygiad cyffredinol | 2 |
| Datgan Buddiant | |
| Ymddygiad cyffredinol a Datgan Buddiant | |
| **Canlyniad** | |
| Dim ymchwiliad | |
| Ymchwiliad – dim tystiolaeth o dorri'r Cod Ymddygiad | 1 |
| Ymchwiliad –dim camau pellach | |
| Ymchwiliad wedi ei ddirwyn i ben | 1 |
| Ymchwiliad – cyfeiriad at y Pwyllgor Safonau | |
| Ymchwiliad – cyfeiriad at Banel Dyfarnu Cymru | |

**4. Achosion Agored**

4.1 Mae'r sefyllfa o safbwynt achosion eraill fel a ganlyn:

- **Ombwdsmon yn ystyried os dylai ymchwilio** **3**
- **Ombwdsmon yn cynnal ymchwiliad** **0**
- **Wedi eu cyfeirio at y Pwyllgor Safonau** **0**

- **Wedi eu cyfeirio at Banel Dyfarnu Cymru** **0**

**5. Argymhelliad**

5.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r wybodaeth